wPecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Cyngor Sir | Dyddiad: | Dydd Llun, 31 Rhagfyr 2012 |
| | | Rhif Union: | 01824712589 |
| | | ebost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYNGOR SIR, DYDD MAWRTH, 8 IONAWR 2013** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU'R RHAN HWN O'R CYFARFOD.**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN BUDDIANNAU**

Aelodau i ddatgan unrhyw ddiddordebau personol neu ragfarn yn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod.

## 3 MATERION BRYS Y CYTUNWYD ARNYN NHW GAN Y CADEIRYDD

Rhaghysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

## 4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

I nodi'r digwyddiadau sifig y mae Cadeirydd y Cyngor wedi ymgymryd â hwy (copi i ddilyn).

## 5 COFNODION

I dderbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr, 2012 (copi'n amgaeedig).

## 6 CYNLLUN LLEIHAU TRETH Y CYNGOR

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau (copi'n amgaeedig) ynghylch y bwriad i ddileu budd-dal treth y cyngor ar ei ffurf bresennol ar draws y DU. Mae cynllun a ddatblygwyd o'r newydd gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru i ddarparu cefnogaeth treth y cyngor i'w fabwysiadu erbyn 31 Ionawr 2013.

## 7 BLAEN RAGLEN WAITH Y CYNGOR SIR

I ystyried blaen raglen waith y Cyngor (copi'n amgaeedig).

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Ian Armstrong
Raymond Bartley
Brian Blakeley
Joan Butterfield
Jeanette Chamberlain-Jones
William Cowie
Ann Davies
James Davies
Meirick Davies
Richard Davies
Stuart Davies
Peter Duffy
Peter Arnold Evans
Hugh Evans
Gwyneth Kensler
Geraint Lloyd-Williams
Margaret McCarroll
Jason McLellan
Barry Mellor
Win Mullen-James
Bob Murray
Peter Owen
Dewi Owens
Merfyn Parry
Allan Pennington
Arwel Roberts
Gareth Sandilands
David Simmons

Bobby Feeley
Carys Guy-Davies
Huw Hilditch-Roberts
Martyn Holland
Colin Hughes
Rhys Hughes
Hugh Irving
Alice Jones
Huw Jones
Pat Jones
Barbara Smith
David Smith
Bill Tasker
Julian Thompson-Hill
Joe Welch
Cefyn Williams
Cheryl Williams
Eryl Williams
Huw Williams

**COPIAU I'R:**

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**CYNGOR SIR**

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr Y Cyngor, Neuadd Y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 4 Rhagfyr 2012 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Ian Armstrong, Raymond Bartley, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, William Cowie, Ann Davies, James Davies, Meirick Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Hugh Evans, Bobby Feeley, Carys Guy-Davies, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Colin Hughes, Rhys Hughes, Hugh Irving, Alice Jones, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Margaret McCarroll, Jason McLellan, Barry Mellor, Win Mullen-James, Bob Murray, Dewi Owens, Merfyn Parry, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, David Simmons, Barbara Smith, David Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams, Eryl Williams a/ac Huw Williams

**HEFYD YN BRESENNOL**

Y Prif Weithredwr (MM), y Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM); Cwsmeriaid (HW); Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a Swyddog Monitro (RGW), y Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM), Pennaeth Cynllunio a Diogelwch y Cyhoedd (GB), Rheolwr y Polisi Cynllunio (AL) a'r Gweinyddydd Pwyllgor (CIW).

**1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Peter Arnold Evans a/ac Peter Owen.

Datganodd y Cadeirydd, aelodau a swyddogion eu dymuniadau gorau i'r Cynghorydd P.W. Owen yn dilyn ei salwch diwethar.

**2 DATGANIADAU BUDDIANT**

Nodwyd y buddiannau canlynol mewn eitemau busnes i'w hystyried yn y cyfarfod.

Datganodd y Cynghorwyr T.R. Hughes, E.A. Jones, H.Ll. Jones ac E.W. Williams fuddiant personol yn Eitem 6 ar yr Agenda, sef Penderfyniad Cynllun Datblygu Lleol mewn Ymateb i Arolygydd.

**3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod ar frys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 DYLETSWYDD Y CADEIRYDD**

Roedd rhestr o ymrwymiadau dinesig a fodlonwyd i'r Cyngor gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, yn y cyfnod rhwng 23 Hydref 2012 a 20 Tachwedd 2012, wedi'i chylchredeg gyda'r papurau i'r cyfarfod.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at effaith drychinebus y llifogydd ar gynifer o bobl a'u heiddo, a hynny'n arbennig yn ardaloedd Llanelwy a Rhuthun. Amlygodd y natur benderfynol, yr ysbryd a'r cadernid a ddangoswyd gan y cymunedau yn yr ardaloedd dan sylw a diolchodd i aelodau'r gwasanaethau brys, yr RSPCA, gweithwyr post a phob asiantaeth arall a gymerodd ran am eu hymdrechion. Nodwyd gwerthfawrogiad arbennig i swyddogion ac Aelodau etholedig y Cyngor Sir am yr ymdrech tîm a'r gwaith rhagorol a wnaethpwyd yn ystod yr amgylchiadau eithafol.

Eglurodd y Cadeirydd y byddai adroddiad gwybodaeth yn cael ei ddarparu gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y digwyddiad, ac i roi manylion y gwaith adfer ymatebol sy'n cael ei wneud. Cadarnhaodd y byddai Sir Ddinbych yn dal i roi cymorth, cyngor a chefnogaeth yn ystod y broses adfer.

Cyfeiriodd y Cynghorydd D.I. Smith at y cynigion o gymorth a gafwyd o bob rhan o'r DU a thramor a diolchodd i bawb a fu'n gwneud y gwaith gwych a wnaethpwyd. Cadarnhaodd y farn a fynegwyd gan y Cadeirydd fod y Cyngor Sir a'i asiantaethau partner wedi cydweithio'n dda i ymateb i'r digwyddiad.

Amlygodd y Cynghorydd W.L. Cowie effaith drychinebus y llifogydd a diolchodd i bawb am y gefnogaeth a roddwyd. Cefnogodd y cydymdeimlad a fynegwyd i deulu a ffrindiau Mrs Margaret Hughes a gollodd ei bywyd yn drasig yn ystod y llifogydd yn Llanelwy.

Cyfeiriodd y Cynghorydd R.L. Feeley at y profiad ofnadwy a gafodd llawer o breswylwyr, ac eglurodd y byddai pob ymdrech yn cael ei wneud i nodi'r rhesymau dros fethiant yr amddiffynfeydd rhag llifogydd yn y safle Glasdir yn Rhuthun.

Amlygodd y Cynghorydd J.A. Davies yr effeithiau ar deuluoedd yn y cymunedau llai yr effeithiodd y llifogydd arnynt, gan gyfeirio'n arbennig at ardal Rhuddlan. Cyfeiriodd y Cynghorwyr A. Roberts, H.Ll. Jones, M.Ll. Davies a J.R. Bartley at lifogydd yn eu hardaloedd priodol gan bwysleisio bod angen sicrhau bod yr un cymorth yn cael ei roi i holl ddioddefwyr y llifogydd ledled y Sir.

***PENDERFYNWYD***

*(a) derbyn y rhestr o ymrwymiadau dinesig a fodlonwyd i'r Cyngor gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, a'i nodi, a*
*(b) derbyn datganiad y Cadeirydd mewn perthynas â'r llifogydd yn Sir Ddinbych a'i nodi.*

**5 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2012.

***PENDERFYNWYD –*** *cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 11 Medi 2012 yn gofnod cywir.*

## 6 PENDERFYNIAD CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR YMATEB I'R AROLYGYDD

Roedd copi o adroddiad gan y Rheolwr Polisi, Ymchwil a Gwybodaeth, am yr ymgynghoriad ar safleoedd tai ychwanegol a'r polisi fesul cyfnod drafft, wedi'i gylchredeg gyda'r papurau i'r cyfarfod.

Eglurodd y Prif Weithredwr y byddai penderfyniad yn cael ei geisio gan yr Aelodau o ran cyflwyno'r rhestr o'r 21 safle tai ychwanegol, ynghyd â'r polisi fesul cyfnod cysylltiedig yn benodol i'r safleoedd tai ychwanegol hynny, i Arolygydd Cynllunio'r Cynllun Datblygu Lleol. Byddai penderfyniad y Cyngor yn cael ei gyflwyno i'r Arolygwyr a fyddai'n penderfynu a oes gan y Cyngor Gynllun Datblygu Lleol cadarn ai peidio. Pe byddai'r Cyngor yn penderfynu peidio â chyflwyno safleoedd ychwanegol, byddai'n methu â mynd i'r afael â chanfyddiadau'r Arolygwyr a byddai'r Arolygwyr yn canfod bod y Cynllun yn 'ansicr', er gwaethaf y ffaith mai'r unig achos pryder wedi'i nodi gan yr Arolygwyr fyddai cyflenwad tai.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at arwyddocâd strategol ehangach y Cynllun Datblygu Lleol, cynllun statudol, a fyddai'n chwarae rhan uniongyrchol mewn cyflawni blaenoriaethau 'Datblygu'r Economi Leol' a 'Sicrhau Bod Tai o Safon Ar Gael' drwy ei bolisïau a'i gynigion. Byddai'r Cynllun Datblygu Lleol yn darparu gweledigaeth i'r Sir am y blynyddoedd i ddod ac yn dylanwadu ar ddyfodol Sir Ddinbych drwy feithrin hyder yn y sector preifat, annog buddsoddiad a gwella rhagolygon cyflogaeth.

Pwysleisiodd y Prif Weithredwr fod y Cynllun Datblygu Lleol wedi'i ddatblygu gan Sir Ddinbych a bod y cyngor wedi cytuno ar y ffigur o 7500 o gartrefi newydd sydd yn y Cynllun yn 2008. Cyfeiriodd at y polisi fesul cyfnod ac eglurodd mai ffigur cynllunio oedd y ffigur o 7500 ac nad oedd yn nodi nifer y tai y mae'n rhaid eu hadeiladu. Ni fyddai gweithredu'r 21 safle i'r cyfnod olaf yn y Cynllun yn caniatáu i'w dwyn ymlaen heblaw bod y cyflenwad tir tai cyflenwadwy yn syrthio islaw pum mlynedd, a byddai hyn yn cael ei bennu gan y farchnad a'r economi. Awgrymwyd hwyrach y byddai'r Aelodau, wrth ffurfio eu penderfyniad, am ystyried pwysigrwydd Cynllun Datblygu Lleol i Sir Ddinbych, tebygolrwydd defnyddio'r safleoedd a rhoi ystyriaeth i bob un safle.

Bu'r Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd yn crynhoi'r adroddiad a oedd yn disgrifio'r hanes a'r cyfnodau allweddol ers dechrau'r Cynllun Datblygu Lleol yn 2006. Roedd yr adroddiad yn amlygu'r broses a fabwysiadwyd, y sylwadau a gafwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar safleoedd tai ychwanegol arfaethedig a'r polisi fesul cyfnod drafft a gyflwynwyd mewn ymateb i ganfyddiadau'r Arolygwyr Cynllunio ynghylch yr angen a'r cyflenwad tai a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2012.

Roedd dwy brif swyddogaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys dyrannu safleoedd am ddatblygiad posibl, a darparu polisïau penodol i arwain a rheoli'r ffordd y dylai datblygiad gael ei wneud. Byddai felly'n ddogfen allweddol i hwyluso datblygiad economaidd ledled y Sir drwy ddyrannu tir i fodloni anghenion y Sir o ran denu defnyddiau cyflogaeth newydd, darparu tai newydd, sefydlu cyfleusterau hamdden a chymunedol, gwella ffyrdd a seilwaith arall. Byddai cyflenwi dwy o flaenoriaethau'r Cyngor yn llwyddiannus, sef sicrhau bod tai o safon ar gael a datblygu'r economi leol, hefyd yn dibynnu'n helaeth ar gael Cynllun Datblygu Lleol wedi'i fabwysiadu.

Roedd Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol y cytunwyd arni yn 2008 yn cynnwys twf tai posibl o 7500. Byddai mwyafrif helaeth y twf posibl yn digwydd ar dir llwyd ac yn rhan o aneddiadau presennol. Fodd bynnag, bu'r lefel hon o dwf islaw rhagamcaniadau tai Llywodraeth Cymru ar gyfer y Sir, sef 8500. Roedd gwybodaeth am boblogaeth wedi'i chynnwys yn Atodiadau 5 a 6 i'r adroddiad.

Ar ôl cytuno yn y Cyngor Llawn ym mis Mai 2011, cyflwynwyd y Cynllun Datblygu Lleol yn ffurfiol i'r Arolygiaeth Gynllunio am Archwiliad cyhoeddus. Bu'r Arolygwyr yn ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd a chyhoeddwyd nodyn ganddynt ym mis Mehefin 2012 yn rhoi gwybod i'r Cyngor eu bod wedi derbyn targed tai'r Cyngor sef darparu 7500 o dai newydd erbyn 2021 i fodloni anghenion tai ac nad oeddent yn cynnig newid hynny. Fodd bynnag, roedd yr Arolygydd yn ystyried nad oedd y Cyngor wedi canfod cyflenwad digonol o dir tai yn y Cynllun i fodloni'r angen y cytunwyd arno, sef 7500. Er mwyn i'r Cyngor gyrraedd ei ffigur angen ei hun, roedd yr Arolygydd wedi nodi y byddai angen cynnwys safleoedd ychwanegol, a allai gynnal tua 1000 o anheddau ychwanegol, yn y Cynllun. Eglurodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd y byddai'r 1000 o anheddau ychwanegol yn rhoi mwy o gyfle a hyblygrwydd i'r farchnad gyrraedd y ffigur hwnnw pe byddai'r galw'n dod i'r amlwg. Byddai hefyd yn bwysig nodi bod y Cynllun Datblygu Lleol yn ymwneud â dyrannu tir am ddatblygiad ac na fyddai'n gorchymyn adeiladu 7500 o dai, nac yn gorfodi hynny mewn unrhyw ffordd.

Eglurwyd bod Aelodau wedi cytuno i symud ymlaen i nodi safleoedd a gyflwynwyd yn flaenorol ym mhroses y Cynllun Datblygu Lleol i ddarparu lle i 1000 o anheddau ychwanegol i'r cyflenwad tai cyffredinol yn y Sir. Cafodd yr holl safleoedd a gyflwynwyd yn flaenorol eu sgrinio am gyfyngiadau a nodwyd 21 o safleoedd tai posibl fel y nodwyd yn Atodiad 2 i'r adroddiad. Roedd rhyw 825 o'r anheddau yn y 21 safle ychwanegol mewn aneddiadau yng ngogledd y Sir ac mewn trefi a chanddynt gyfleusterau eisoes.

Barn y Cyngor yn ystod yr Archwiliad oedd nad oedd y 1000 o dai ychwanegol yn ofynnol gan fod cyflenwad tai digonol yn y Cynllun Datblygu Lleol i gyrraedd y targed o 7500 a nodwyd. Fodd bynnag, roedd yr Arolygydd yn anghytuno, ar sail yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd iddo yn ystod y Sesiynau Gwrandawiad. O ystyried y gwahaniaeth barn rhwng y Cyngor a'r Arolygydd, ystyriwyd ei bod yn briodol cynnig polisi ychwanegol yn ogystal â chyflwyno'r rhestr o safleoedd ychwanegol. Roedd y polisi ychwanegol, Atodiad 1, yn bolisi fesul cyfnod a oedd yn ceisio cyfyngu ar weithredu'r 21 safle hyd gyfnod olaf y Cynllun a sicrhau na fyddent yn cael eu dwyn ymlaen heblaw bod y cyflenwad tir tai cyflenwadwy'n syrthio islaw 5 mlynedd.

Eglurodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd fod y polisi fesul cyfnod wedi'i ddrafftio i sicrhau dull clir a chadarn ac wedi'i gynnwys yn rhan o'r ymgynghoriad ar yr 21 safle am ei fod yn rhan annatod o'r ymateb i'r Arolygydd. Amlinellwyd y broses ymgynghori ac roedd Atodiad 3 yn nodi nifer y gwrthwynebiadau a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori gan breswylwyr lleol ar bob safle. Roedd Atodiad 4 yn darparu asesiad cynhwysfawr o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd a'r ymatebion a gafwyd.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau, os byddant yn penderfynu cyflwyno safleoedd ychwanegol i'r Arolygwyr, y byddai Sesiynau Gwrandawiad yn cael eu cynnal ar ddiwedd mis Ionawr a byddai gwrthwynebwyr yn cael y cyfle i gyflwyno eu pryderon a'u tystiolaeth i'r Arolygwyr a fyddai'n cyhoeddi eu hadroddiad ar ôl i'r Sesiynau Gwrandawiad gau. Amlinellodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd ganlyniadau peidio â chyflwyno safleoedd ychwanegol i'r Arolygwyr. Byddai'n rhaid i'r Cyngor ddechrau'r broses eto a byddai hyn yn golygu bod angen ymchwil ac ymgynghori ychwanegol, Archwiliad cyhoeddus pellach, gan greu costau sylweddol i'r Cyngor ac efallai cymryd 3 i 4 blynedd bellach.

Pwysleisiodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd fod risgiau clir a phwysig ynghlwm wrth benderfyniad gan y Cyngor i beidio â chytuno i'r safleoedd ychwanegol ac felly peidio â chael Cynllun Datblygu Lleol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Ni fyddai gan y Cyngor unrhyw gynllun defnydd tir strategol ar gyfer datblygiad a thwf y Sir.
- Byddai'r broses o gyflenwi blaenoriaethau Corfforaethol tai a datblygu economaidd yn cael ei rhwystro'n ddifrifol.
- Ni fyddai gan y Cyngor 5 mlynedd o gyflenwad tir tai.
- Byddai datblygiad yn cael ei ysgogi gan y farchnad a gellid cyflwyno ceisiadau am dai newydd ar gyfer unrhyw safle yn y Sir, gan gynnwys y rheini a wrthodwyd ar y rhestr tai ychwanegol yn Atodiad 2. Heb 5 mlynedd o gyflenwad tai, byddai'n anodd gwrthod ceisiadau felly a phe byddent yn cael eu gwrthod byddai'n anoddach byth cyfiawnhau hynny mewn unrhyw apêl ddilynol.
- Byddai mewnfuddsoddiad ar gyfer defnyddiau cyflogaeth newydd yn annhebygol o ddod i'r amlwg oherwydd prin y byddai tir cyflogaeth cyflenwadwy ar ôl.
- Defnyddio adnoddau'r Cyngor yn aneffeithlon, o ystyried bod gwaith a chostau sylweddol wedi bod ers 2006 i gyrraedd y man hwn.
- Ni ellid ystyried polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol a wrthodwyd wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio ac, fel y cyfryw, byddai ceisiadau cynllunio'n cael eu hasesu ar sail polisïau yn yr hen Gynllun Datblygu Unedol.
- Ni fyddai'r cyflenwad tai fforddiadwy ychwanegol a ragwelir i fodloni anghenion lleol yn cael ei gyflawni.

Pwysleisiodd y swyddogion y byddai pwyso a mesur y risgiau ynghlwm wrth beidio â chytuno i argymhelliad yr adroddiad, a hynny mewn perthynas â'r tebygolrwydd na fyddai'r 21 safle ychwanegol yn dod i'r amlwg i'w datblygu o ystyried y polisi fesul cyfnod arfaethedig cysylltiedig, realiti'r economi, y cyflenwad tir tai sydd eisoes wedi'i gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol a thebygolrwydd cynnal 5 mlynedd o gyflenwad tai drwy gydol oes y Cynllun. Cadarnhawyd bod mwyafrif y costau i

symud y Cynllun Datblygu Lleol yn ei flaen eisoes wedi digwydd ac y byddai peidio â'i fabwysiadu'n golygu costau ychwanegol sylweddol.

Eglurodd y Cynghorydd E.W. Williams mai dogfen Sir Ddinbych oedd y Cynllun Datblygu Lleol a bod Aelodau wedi cytuno ar ei gynnwys. Fodd bynnag, roedd rhai pethau wedi'u cynnwys yn y ddogfen yn groes i ddymuniadau'r Aelodau o ran eu hardaloedd priodol eu hunain ac yn aml dylanwadwyd arnynt gan gyrff allanol, fel Llywodraeth Cymru a'r Llywodraeth Ganolog. Eglurodd y byddai'n bwysig cyflwyno cynigion i'r Arolygwyr i sicrhau bod gan Sir Ddinbych gynllun defnydd tir strategol ac y gallai ddylanwadu ar ddatblygiadau'r dyfodol, a byddai hyn yn galluogi Sir Ddinbych i gyfyngu ar ddatblygiad y tu allan i'r 21 ardal a nodwyd.

Cadarnhaodd y Rheolwr Polisi, Ymchwil a Gwybodaeth fod Atodiad 4 yn darparu asesiad cynhwysfawr o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd a'r ymatebion a gafwyd, ac fel y cytunodd y Cabinet roedd sylwadau hwyr wedi'u cylchredeg i'r Aelodau ar ôl y terfyn amser o 5.00pm y diwrnod blaenorol. Mynegodd y Cynghorydd E.W. Williams bryder fod Llywodraeth Cymru wedi methu â chyflwyno sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori penodedig. Cyfeiriodd at y Polisi Fesul Cyfnod ac eglurodd na fyddai'r 21 safle'n cael eu dwyn ymlaen heblaw bod y cyflenwad tir tai cyflenwadwy'n syrthio islaw 5 mlynedd. Cadarnhawyd mai dim ond un o'r safleoedd a nodwyd, sef safle tir llwyd yn y Rhyl, oedd y tu mewn i ardal y gorlifdir.

Bu'r Aelodau'n cwestiynu statws yr 21 o safleoedd ychwanegol a nodwyd yn y dyfodol. Cefnogodd y Cynghorydd M.L. Holland, ac eiliodd y Cynghorydd A. Roberts, gynnig gan y Cynghorydd G.M. Kensler i gynnwys argymhelliad ychwanegol yn nodi "nad yw'r un o'r safleoedd sydd dan ystyriaeth ar hyn o bryd yn cael eu hystyried yn rhan o'r sefyllfa sydd ohoni yn 2021". Ar fwrw pleidlais, cafodd y cynnig ei dderbyn.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd T.R. Hughes y gellid cyflwyno cais cynllunio gan ddatblygwr ar gyfer datblygu tai fforddiadwy yn un o'r 21 ardal a nodwyd, eglurodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd y byddai swyddogion, yn unol â'r Polisi Fesul Cyfnod, yn argymell gwrthod y cais. Fodd bynnag, byddai'r cais yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Cynllunio i'w ystyried ac am benderfyniad terfynol. Eglurodd y Prif Weithredwr y byddai'r broses gynllunio'n llawer mwy bregus heb Gynllun Datblygu Lleol yn ei le a byddai cael Cynllun Datblygu Lleol wedi'i fabwysiadu'n rhoi'r cyfle i swyddogion a'r Pwyllgor Cynllunio wrthod ceisiadau a gwarchod yr 21 ardal a nodwyd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd E.A. Jones at y problemau llifogydd diweddar a gafwyd yn y Sir a mynegodd bryder y byddai datblygu'r 21 safle'n effeithio ar yr ardal arfordirol, gan gyfeirio'n arbennig at ardaloedd Bodelwyddan a Rhuddlan. Awgrymodd y Cynghorydd Jones, o ystyried bod tystiolaeth newydd ar gael mewn perthynas â llifogydd yn ardal Bodelwyddan, y dylid gofyn i Lywodraeth Cymru ailystyried y safle strategol allweddol ym Modelwyddan. Roedd yn teimlo na ddylai'r Awdurdod fwrw ymlaen â'r Cynllun Datblygu Lleol nes egluro statws llifogydd tir strategol allweddol, a gofynnodd am graffu'n drwyadl ar strategaeth safleoedd strategol y Cynllun Datblygu Lleol.

Cynigiwyd gwelliant yn yr argymhelliad yn yr adroddiad gan y Cynghorydd E.A. Jones, a eiliwyd gan y Cynghorydd A. Roberts, sef “bod y Cyngor yn cyfeirio’r safle strategol allweddol ym Modelwyddan, yn rhan o strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol, at Lywodraeth Cymru i’w ailystyried ac i graffu arno oherwydd byddai’r cynnig yn golygu datblygu (ardal fawr ar ymyl) gorlifdir C1 a C2”.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratig y byddai 10 diwrnod gwaith o rybudd yn ofynnol, o dan Reolau Sefydlog y Cyngor, i dderbyn cynnig. Cadarnhawyd y gellid derbyn gwelliannau i gynnig heb rybudd. Fodd bynnag, roedd y cynnig gan y Cynghorydd Jones yn cyfeirio at safle strategol allweddol ac nid oedd yn berthnasol i’r argymhelliad i’w ystyried gan y Cyngor. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratig nad oedd y cynnig gan y Cynghorydd Jones, yn unol â Rheolau Sefydlog, yn welliant y gellid ei wneud i’r cynnig cyfredol. Mewn ymateb, roedd y Cynghorydd Jones yn teimlo y dylai’r cynnig fod yn ddilys, am fod y cynnig yn berthnasol i’r safle strategol allweddol, a oedd yn rhan bwysig o’r Cynllun Datblygu Lleol ac a oedd yng nghyd-destun yr 21 safle dan ystyriaeth.

Roedd y Cadeirydd yn ystyried nad oedd y gwelliant a gynigiwyd gan y Cynghorydd E.A. Jones yn gynnig digon clir ac felly gwrthodwyd y cynnig.

Bu’r Pennaeth Cynllunio a Diogelu’r Cyhoedd yn rhoi gwybodaeth gefndir am faterion yn ymwneud â llifogydd, ac yn arbennig o ran y safleoedd strategol allweddol. Cyfeiriodd at y broses ymgynghori a gynhaliwyd ac at ystyried y materion hyn gan yr Arolygwyr ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Cadarnhawyd na fyddai safleoedd a oedd yn destun gwrthwynebiadau gan Asiantaeth yr Amgylchedd, y nodwyd eu bod yn y gorlifdir, yn cael eu cyflwyno oni nodwyd eu bod yn safleoedd tir llwyd lle’r oedd materion adfywio.

Amlinellodd y Rheolwr Polisi, Ymchwil a Gwybodaeth y gwaith sy’n cael ei wneud i ddod ymlaen â Bodelwyddan yn safle strategol allweddol. Eglurodd fod risg llifogydd wedi’i nodi fel mater allweddol yn ystod cyfnodau cynnar paratoi’r Cynllun Datblygu Lleol. Cadarnhaodd, yn unol â chanllawiau cenedlaethol, nad oedd safleoedd yn y gorlifdir yn cael eu cyflwyno’n gyffredinol i’w cynnwys, a bod y safle allweddol strategol ym Modelwyddan wedi’i nodi fel un sydd y tu allan i’r ardal llifogydd.

Cydsyniodd yr Aelodau fod y Polisi Fesul Cyfnod Drafft wedi’i ystyried yn fanwl ac, ar fwrw pleidlais, cytunodd yr Aelodau i gymeradwyo’r Polisi Fesul Cyfnod Drafft, Atodiad 1, i’w gyflwyno i’r Arolygiaeth Gynllunio, yn amodol ar gynnwys argymhelliad ychwanegol “nad yw’r un o’r safleoedd sy’n cael eu hystyried ar hyn o bryd yn cael eu hystyried yn rhan o’r sefyllfa sydd ohoni yn 2021”.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodiad 2 i’r adroddiad, Archwiliad Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych, Rhestr o ddyraniadau tai ychwanegol, a dywedodd wrth yr Aelodau y byddai pleidlais yn cael ei chynnal o ran pob un safle unigol ynghylch y cynnig i’w gynnwys yn y rhestr ar gyfer safleoedd tai ychwanegol. Cyflwynodd y Rheolwr Polisi, Ymchwil a Gwybodaeth bob un o’r safleoedd a darparodd grynodeb o’r wybodaeth am y safleoedd priodol, gan gynnwys manylion unrhyw wrthwynebiadau

a gafwyd fel y maent wedi'u cynnwys yn Atodiad 4. Codwyd y pryderon a'r materion canlynol a rhoddwyd yr ymatebion canlynol:-

Safle 1. AHS 01. Tir wrth ochr Rhif 16 ystâd tai Maes y Graig, Bodfari – cadarnhaodd y Cynghorydd B.A. Smith nad oedd unrhyw wrthwynebiadau wedi'u cyflwyno gan breswylwyr a bod y Cyngor Cymunedol wedi mynegi ei gefnogaeth. Ar fwrw pleidlais, derbyniwyd y cynnig.

Safle 2. AHS 02. Tir y tu ôl i Lys Heulog, Cyffylliog – eglurodd y Cynghorydd J.S. Welch fod y farn wedi'i mynegi'n lleol fod digon o dir eisoes ar gael yn yr ardal. Ar fwrw pleidlais, derbyniwyd y cynnig.

Safle 3. AHS 03. Tir gerllaw Bryn Gwynt, Cynwyd – cynigiodd y Cynghorydd C.H. Williams welliant sef lleihau nifer yr unedau o 15 i 10. Ar fwrw pleidlais, collwyd y gwelliant. Pleidleisiodd yr Aelodau am y cynnig o 15 uned a derbyniwyd hwn.

Safle 4. AHS 04. Tir yn Lodge Farm, Dinbych – roedd y Cynghorydd C. Hughes o blaid darparu tai ychwanegol yn yr ardal ond roedd yn poeni bod y safle wrth ymyl ardal risg llifogydd. Pwysleisiodd y byddai'n bwysig sicrhau na fyddai unrhyw ddatblygiad yn cael effaith niweidiol ar y system lliniaru llifogydd sydd yn yr ardal ar hyn o bryd. Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd G.M. Kensler, eglurodd y Rheolwr fod Dŵr Cymru wedi cadarnhau, pe byddai'r safle'n cael ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol, y gellid cynnwys unrhyw waith gofynnol i gynyddu'r cynhwysedd yn y Gwaith Trin yn eu Cynllun Rheoli Asedau. Ar fwrw pleidlais, derbyniwyd y cynnig.

Safle 5. AHS 05. Tir gerllaw Ysgol Pendref (hen Ysgol Heulfre), Dinbych – Mewn ymateb i gais gan y Cynghorydd C. Hughes, cadarnhaodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd gynnwys y gair "dylai" wrth gyfeirio at yr angen am ddarparu mesurau lleddfu traffig. Ar fwrw pleidlais, derbyniwyd y cynnig.

Safle 6. AHS 06. Tir rhwng yr hen Ffordd Rhuthun a'r Ffordd Rhuthun newydd, Dinbych – eglurodd y Cynghorydd J.R. Davies fod y tir oddi ar Ffordd Rhuthun yn briffordd brysur iawn. Eglurodd fod preswylwyr yn teimlo y bu diffyg ymgynghori, a oedd wedi gwrthod y cyfle iddynt ystyried safleoedd amgen. Mynegwyd pryderon hefyd am faterion priffyrdd amrywiol a oedd yn gysylltiedig â mynediad i'r safle, maint y traffig, natur beryglus y llwybr i blant sy'n teithio i'r ysgol, diffyg cyfleusterau gwasanaeth, llifogydd a phrinder gwasanaethau carthffosiaeth. Cefnogodd y Cynghorydd J.R. Bartley y farn a fynegwyd ac eglurodd y byddai'r safle hwn a safle AHS 05 yn cael effaith niweidiol ar ddiwylliant a chymeriad yr ardal o'u cwmpas. Cyfeiriodd yn benodol at faterion yn ymwneud â llifogydd yn yr ardal a'r prinder cyfleusterau carthffosiaeth ar gyfer unrhyw ddatblygiad newydd. Mynegodd y Cynghorwyr C. Hughes a G.M. Kensler eu cefnogaeth ynghylch y pryderon a amlygwyd gan yr Aelodau Lleol.

Dywedodd y Rheolwr Polisi, Ymchwil a Gwybodaeth wrth yr Aelodau fod y radd tir amaethyddol, sef y tir gorau a mwyaf hyblyg, wedi'i chydnabod yn y gwerthusiad cynaliadwyedd ac nad oedd unrhyw wrthwynebiadau wedi'u cael gan Asiantaeth yr Amgylchedd ynglŷn â risg llifogydd. Rhoes fanylion mynediad priffordd i'r safle a darpariaeth gwasanaethau yn yr ardal, ac eglurodd fod Dŵr Cymru wedi cadarnhau

bod darpariaeth carthffosiaeth ar gael ar hyn o bryd, ond gallai gwaith gwella fod yn ofynnol yn y Gwaith Trin. Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd Bartley ynglŷn ag anhawster yn cael yswiriant rhag llifogydd yn yr ardal, eglurwyd bod cwmnïau yswiriant yn cael eu tywys gan godau post yn hytrach na thopograffeg yr ardal. Ar fwrw pleidlais, derbyniwyd y cynnig.

Safle 7. AHS 07. Tir oddi ar Ffordd Eglwys Wen, Dinbych – cyfeiriodd y Cynghorydd J.R. Bartley at faint y traffig sy'n defnyddio'r briffordd, gan gyfeirio'n arbennig at y tagfeydd a geir yng nghyffiniau Eglwys Wen. Cyfeiriodd at ecoleg yr ardal ac eglurodd fod y gwrthwynebiadau a godwyd yn AHS 06 hefyd yn berthnasol i'r safle hwn. Cefnogodd y Cynghorydd R.J. Davies y farn a fynegwyd. Ar fwrw pleidlais, derbyniwyd y cynnig.

Safle 8. AHS 08. Gerllaw Ystâd Glan Ffyddion, Dyserth – mynegodd y Cynghorwyr D. Owens, ar ran yr Aelod Lleol y Cynghorydd P.W. Owen, a J. Thomson-Hill bryder ynglŷn â nifer y tai a gynigiwyd, a mynediad priffordd i'r safle. Cyfeiriodd y Cynghorydd A. Roberts at Afon Ffyddion a risg posibl llifogydd yng nghyffiniau'r safle. Ar fwrw pleidlais, derbyniwyd y cynnig.

Safle 9. AHS 09. Tir y tu ôl i Faes Meurig, Galltmelyd - dywedodd y Cynghorydd D.I. Smith wrth yr Aelodau fod yr Aelod Lleol, y Cynghorydd P.A. Evans, wedi mynegi ei gefnogaeth. Ar fwrw pleidlais, derbyniwyd y cynnig.

Safle 10. AHS 10. Tir y tu ôl i ystâd Maes Garmon, Llanarmon-yn-iâl - eglurodd y Cynghorydd M.L. Holland fod y gymuned leol wedi mynegi'r farn y byddai 10% o gynnydd yn rhesymol ac yn dderbyniol o ystyried maint y pentref a'r datblygiad y cytunwyd iddo'n flaenorol. Cododd bryderon ynglŷn â phroblemau mewn perthynas â materion priffyrdd a charthffosiaeth, a allai greu anawsterau a chynyddu'r gost o ddarparu datblygiad cost isel yn yr ardal. Eglurodd y Rheolwr Polisi, Ymchwil a Gwybodaeth fod sicrwydd wedi'i roi bod mynediad priffordd yn bosibl. Roedd Dŵr Cymru wedi cadarnhau na fyddai cysylltu â'r system garthffosiaeth yn creu problemau, ond gallai gwaith gwella fod yn ofynnol yn y Gwaith Trin a byddai hwn yn cael ei ymgorffori yn eu cynlluniau buddsoddi yn y dyfodol. Ar fwrw pleidlais, derbyniwyd y cynnig.

Safle 11. AHS 11. Tir i'r gogledd-orllewin o Faes Derwen, Llanbedr Dyffryn Clwyd – cyfeiriodd y Rheolwr Polisi, Ymchwil a Gwybodaeth at wall ar dudalen 6 o'r daflen sylwadau hwyr ac eglurodd fod AHS 11 i'w newid i AHS 12. Mynegodd y Cynghorydd H.O. Williams ei gefnogaeth i'r safle. Ar fwrw pleidlais, derbyniwyd y cynnig.

Safle 12. AHS 12. Tir gerllaw The Old Rectory, Llanbedr Dyffryn Clwyd – mynegodd y Cynghorydd H.O. Williams ei gefnogaeth i'r safle. Ar fwrw pleidlais, derbyniwyd y cynnig.

Cafwyd seibiant yn y man hwn yn y cyfarfod (13.05pm).

Ailddechreuodd y cyfarfod am 1.35pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr J. Chamberlain-Jones (Cadeirydd), I.W. Armstrong, J.R. Bartley, B. Blakeley, J.A. Butterfield, W.L. Cowie, J.A. Davies, M.Ll. Davies, R.J. Davies, S.A. Davies, H.H. Evans, R.L. Feeley, C.L. Guy-Davies, H. Hilditch-Roberts, C. Hughes, T.R. Hughes, H.C. Irving, E.A. Jones, H.Ll. Jones, P.M. Jones, G.M. Kensler, G. Lloyd-Williams, M. McCarrol, J.M. McLellan, B. Mellor, W.M. Mullen-James, R.M. Murray, D. Owens, T.M. Parry, A. Roberts, G. Sandilands, D. Simmons, B.A. Smith, D.I. Smith, W.N. Tasker, J. Thompson-Hill, J.S. Welch, C.H. Williams, C.L. Williams, E.W. Williams a H.O. Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Y Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM); Cwsmeriaid (HW); Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratig a'r Swyddog Monitro (RGW), y Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM), y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (GB), y Rheolwr Polisi Cynllunio (AL), yr Uwch Swyddog Trwyddedu (NJ) a Gweinyddwr y Pwyllgor (CIW).

Safle 13. AHS 13. Tir yn Ysbyty H.M. Stanley - mynegodd y Cynghorydd D. Owens ei gefnogaeth i'r safle. Ar fwrw pleidlais, derbyniwyd y cynnig.

Safle 14. AHS 14. Tir y tu cefn i'r groesffordd a Bron y Clwyd, Llanfair Dyffryn Clwyd – eglurodd y Cynghorydd H.H. Evans fod sylwadau wedi'u cael gan y gymuned ynglŷn â'r broses ymgynghori, gan gyfeirio'n arbennig at y diffyg ymgynghori gan y Cyngor Cymunedol, ac yn gofyn am ohirio'r broses o ystyried y safle tan rywbryd yn y dyfodol. Cyfeiriodd y Cynghorydd Jones at yr amserlenni sy'n ymwneud â'r broses ymgynghori ac eglurodd na allai'r Cyngor Sir ddylanwadu ar y broses ymgynghori a fabwysiadir gan y Cyngor Cymunedol. Eglurodd ei fod wedi annog twf pentrefi yn ei ward at ddibenion cynaliadwyedd ac i ddarparu tai i bobl ifanc. Fodd bynnag, cydnabu y gallai'r diffyg gallu i ddarparu gwasanaethau carthffosiaeth gyfyngu ar ddatblygiad newydd yn yr ardal ac roedd yn teimlo y gellid annog a dylanwadu ar ddatblygiad y dyfodol drwy gynnwys y safle yn y Cynllun Datblygu Lleol.

Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd E.A. Jones am gamau'r Cyngor Cymunedol wrth gyflwyno'r' safle i'w gynnwys yn y rhestr o ddyraniadau tai ychwanegol, cadarnhaodd y Cynghorydd H.H. Evans fod cyfarfod y Cyngor Cymunedol wedi'i gynnal yn unol â'r Cod Ymddygiad. Ar fwrw pleidlais, derbyniwyd y cynnig.

Safle 15. AHS 15. Tir yn Wern Road, Llangollen – eglurodd y Cynghorydd S.A. Davies ei fod wedi cael nifer o wrthwynebiadau gan breswylwyr lleol ynglŷn â'r safle. Cyfeiriodd at faterion priffyrdd, a oedd yn gysylltiedig â'r lôn gul yng nghyffiniau'r safle. Ar fwrw pleidlais, derbyniwyd y cynnig.

Safle 16. AHS 16. Tir gerllaw Dolwar, Pentre Llanrhaeadr – eglurodd y Cynghorydd J.S. Welch ei fod yn deall bod materion yn ymwneud â'r terfyn cyflymder yn yr ardal yn destun adolygiad ar hyn o bryd. Ar fwrw pleidlais, derbyniwyd y cynnig.

Safle 17. AHS 17. Tir yn Mid Nant Homestead, oddi ar Ffordd Gronant, Prestatyn – yn absenoldeb y Cynghorydd J.M. Davies, eglurodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill fod y safle gyferbyn ag adeilad rhestredig a gerllaw'r AHNE a safle SoDdGA, er bod rhan o'r safle ar hen safle tir llwyd. Cadarnhaodd y byddai cymeradwyo'r safle'n arwain at bosibilrwydd colli fferm waith ac amlygwyd achosion pryder mewn perthynas â mynediad i'r safle. Amlygodd y Cynghorydd J.M. McLellan y cynnydd posibl yn y traffig yn y cyffiniau ar ôl uno Ysgol Bodnant yn ysgol Babanod ac Iau ar y cyd. Cadarnhaodd y Cynghorydd H.C. Irving y farn a fynegwyd.

Eglurodd y Rheolwr Polisïau, Ymchwil a Gwybodaeth nad oedd y safle yn y rhwystr glas ac nad oedd yr Adran Briffyrdd wedi cyflwyno gwrthwynebiadau. Ar fwrw pleidlais, derbyniwyd y cynnig.

Safle 18. AHS 18. Tir yng nghae rhif 3583, i'r de o Ddyffryn Teg, Rhuallt - mynegodd y Cynghorydd B.A. Smith ei bod yn cefnogi'r safle. Ar fwrw pleidlais, derbyniwyd y cynnig.

Safle 19. AHS 19. Tir gerllaw Hafod y Gân ac Ysgol Tir Morfa, Rhuddlan - roedd y Cynghorydd J.A. Davies yn teimlo nad oedd maint y safle'n uniaethu â maint y Dref. Roedd y preswylwyr a'r Cyngor Cymunedol wedi mynegi pryderon am fynediad annigonol i'r safle, system ddraenio sy'n heneiddio a phroblemau llifogydd cysylltiedig, cymorth amwynderau annigonol gyda materion gallu yn y gwasanaeth iechyd lleol, ysgolion a phroblemau traffig. Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint, amlygodd y Cynghorydd A. Roberts achosion pryder mewn perthynas â'r seilwaith priffyrdd lleol, gan gyfeirio'n arbennig at bont Rhuddlan a phroblemau mynediad, llifogydd ac effaith gyffredinol ar y gymuned leol. Mynegodd y Cynghorwyr E.A. Jones a G.M. Kensler eu cefnogaeth i'r pryderon a godwyd gan yr Aelodau Lleol.

Eglurodd y Rheolwr Polisi, Ymchwil a Gwybodaeth y gallai darparu tai ychwanegol helpu i gefnogi cyfleusterau cymunedol lleol a darparu tai i breswylwyr lleol. Mae'r Adran Briffyrdd wedi dweud y gellid cael mynediad i'r safle ac y gellid archwilio posibilrwydd gosod terfyn pwysau ar bont Rhuddlan. Roedd Dŵr Cymru wedi nodi bod digon o le am gysylltiad â'r system garthffosiaeth bresennol ac yn y Gwaith Trin. Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd E.A. Jones, rhoddwyd manylion y berchenogaeth ar y tir dan sylw. Ar fwrw'r bleidlais, derbyniwyd y cynnig.

Safle 20. AHS 20. Tir gerllaw Maes Hafod a Llys Famau, Rhuthun – cadarnhaodd y Cynghorydd D.I. Smith nad oedd unrhyw wrthwynebiadau wedi'u cael gan yr Aelodau Lleol. Ar fwrw'r bleidlais, derbyniwyd y cynnig.

Safle 21. AHS 21. Safle ar gornel Sydenham Avenue a Rhodfa'r Gorllewin - cyfeiriodd y Rheolwr Polisi, Ymchwil a Gwybodaeth at ganllawiau Llywodraeth Cymru ac eglurodd fod y safle'n safle adfywio, er ei fod mewn ardal llifogydd. Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd G.M. Kensler, amlinellodd y Rheolwr Polisi, Ymchwil a Gwybodaeth y rhesymau dros ddwysedd uwch yr eiddo ar y safle hwn, a oedd yn gysylltiedig â'r datblygiad ansawdd uchel yn yr ardal. Cadarnhaodd fod trafodaethau'n parhau gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, o ran materion mewn perthynas â risgiau llifogydd. Eglurodd y Cynghorydd J. Butterfield

nad oedd Aelodau o ardal y Rhyl yn gwrthwynebu'r safle ond yn poeni am ddwysedd y safle. Cynigiodd welliant, sef lleihau nifer y cartrefi ar y safle o 26 i 12, a chyfyngu ar ddatblygiad i bedwar llawr. Ar fwrw'r bleidlais, derbyniwyd y cynnig.

Pleidleisiodd yr Aelodau am gynnwys safle AHS 21 yn y rhestr o ddyraniadau tai ychwanegol, dros 12 cartref, gan gyfyngu ar ddatblygiad i bedwar llawr. Ar fwrw'r bleidlais, derbyniwyd y cynnig.

***PENDERFYNWYD –*** *bod y Cyngor yn cymeradwyo cyflwyno'r canlynol i'r Arolygiaeth Gynllunio:-*

*(a) y Polisi Fesul Cyfnod Drafft fel sydd yn Atodiad 1, yn amodol ar gynnwys argymhelliad ychwanegol yn dweud "nad yw'r un o'r safleoedd dan ystyriaeth yn cael eu hystyried yn rhan o'r sefyllfa sydd ohoni yn 2021", a*
*(b) safleoedd AHS 01 i AHS 21, yn ddyraniadau tai ychwanegol posibl ar sail unigol yn y drefn a nodir yn Atodiad 2, yn amodol ar y gwelliannau uchod.*

## 7 DATGANIAD DIWYGIEDIG O EGWYDDORION DAN DDEDDF GAMBLO 2005

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, am y Datganiad diwygiedig o Egwyddorion dan Ddeddf Gamblo 2005, wedi'i gylchredeg gyda'r papurau i'r cyfarfod.

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd yr adroddiad ac eglurodd fod Adran 349 o Ddeddf Gamblo 2005 yn gofyn i'r Awdurdod Trwyddedu baratoi Datganiad o Egwyddorion. Roedd y Datganiad yn nodi'r ffordd yr oedd y Cyngor yn cynnig arfer ei swyddogaethau a rheoleiddio a rheoli gweithgareddau gamblo yn y Sir. Byddai'n cael ei adolygu ar ôl tair blynedd a byddai Datganiad newydd yn cael ei gyhoeddi a byddai Cyngor Llawn yn cytuno arno. Mae Adran 154(1)(c) o'r Ddeddf yn nodi na allai'r swyddogaeth hon gael ei dirprwyo gan yr Awdurdod Trwyddedu.

Roedd y Pwyllgor Trwyddedu wedi cymeradwyo'r Datganiad o Egwyddorion drafft at ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus. Nid oedd unrhyw newidiadau sylweddol wedi'u cynnig i'r Datganiad o Egwyddorion, Atodiad 1 i'r adroddiad, ac ni chafwyd unrhyw ymatebion i'r broses ymgynghori, a gynhaliwyd yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn y Ddeddf Gamblo.

Amlygwyd y gofyniad bod angen i'r Cyngor sicrhau cydymffurfiad â Rheoliadau Deddf Gamblo 2005 (Datganiad Polisi Awdurdod Trwyddedu) (Cymru a Lloegr) 2006 (O.S. 636 o 2006). Roedd y Rheoliadau'n llywodraethu'r ffurf y mae'n rhaid i Ddatganiadau eu cymryd, gweithdrefnau paratoi, a'r prosesau adolygu neu ddiwygio a chyhoeddi. Roedd y Rheoliadau'n gofyn bod Datganiad yn cael ei gyhoeddi drwy ei wneud ar gael am gyfnod o 4 wythnos o leiaf cyn y dyddiad pan ddaw i rym.

Eglurodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd fod y Ddeddf yn caniatáu i Awdurdodau Lleol wneud penderfyniad polisi ynghylch caniatáu i geisiadau gael eu gwneud am gasinos ai peidio. Nid oedd y Datganiad presennol yn caniatáu

ceisiadau am gasinos. Fodd bynnag, byddai'r mater hwn yn cael ei ailystyried ac unrhyw newidiadau'n cael eu cyflwyno i'r Cyngor am benderfyniad ffurfiol.

Roedd yr Aelodau'n cefnogi cynnig gan y Cynghorydd M.Ll. Davies sef newid geiriad yr argymhelliad yn yr adroddiad i egluro na fu unrhyw newidiadau sylweddol yn y rheolau yn y Datganiad o Egwyddorion.

***PENDERFYNWYD** :-*

*(a) mabwysiadu'r Datganiad o Egwyddorion ar gyfer Deddf Gamblo 2005, fel y'i nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.*
*(b) bod y Cyngor yn ailddatgan peidio â chyhoeddi trwydded safleoedd casino. Fodd bynnag, bod y mater hwn yn cael ei adolygu gan Swyddogion Trwyddedu ac Adfywio cyn gynted â phosibl, yn rhan o flaenoriaeth uchelgais economaidd corfforaethol, a*
*(c) newid geiriad yr argymhelliad yn yr adroddiad i egluro na fu unrhyw newidiadau sylweddol yn y rheolau yn y Datganiad o Egwyddorion.*

## 8 PENODI HYRWYDDWYR

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratig am benodi hyrwyddwyr, wedi'i gylchredeg gyda'r papurau i'r cyfarfod.

Gofynnwyd i'r Cyngor benodi Aelodau i fod yn Hyrwyddwyr yn y meysydd canlynol yn ystod y tymor swydd hwn:-

- Hyrwyddwr Pobl Hŷn
- Hyrwyddwr Digartrefedd
- Hyrwyddwr Gofalwyr
- Hyrwyddwr Anableddau Dysgu

Roedd Llywodraeth Cymru'n gofyn bod Hyrwyddwyr yn cael eu penodi mewn meysydd penodol ac roedd y rolau a nodir uchod wedi'u cydnabod yn ffurfiol gan Gyfansoddiad y Cyngor.

Roedd rôl Hyrwyddwyr yn Sir Ddinbych wedi esblygu o benodi 'Hyrwyddwr Pobl Hŷn' a oedd yn deillio o'r canllawiau yn y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cymru, i'r sefyllfa lle dylai pob awdurdod lleol yng Nghymru gael Hyrwyddwr felly. Roedd Sir Ddinbych ers hynny wedi cynyddu'r amrywiaeth o Hyrwyddwyr i feysydd eraill ac, wrth adolygu ei Chyfansoddiad, roedd wedi cydnabod yn ffurfiol, dan baragraff 2.6 o Erthygl 2, bwysigrwydd rôl Hyrwyddwyr mewn meysydd penodol a chynnwys y rôl yn y Cyfansoddiad.

Roedd y broses o benodi Hyrwyddwyr wedi'i chynnwys yn yr adroddiad, a dull Sir Ddinbych oedd sicrhau bod yr Aelod mwyaf priodol yn cael ei benodi i rôl yr Hyrwyddwr priodol. Cytunwyd ar ddisgrifiad clir o rôl Hyrwyddwyr a'i fabwysiadu, ac roedd disgrifiadau drafft ar gyfer y rolau a nodwyd yn y Cyfansoddiad wedi'u cynnwys fel Atodiadau i'r adroddiad. Cymeradwywyd y rolau priodol gan y Cyngor

ar 6 Tachwedd 2012, gan ofyn am gyflwyno mynegiannau o ddiddordeb a CVs erbyn 16 Tachwedd 2012.

Roedd Arweinwyr Grŵp wedi mynegi eu cefnogaeth i benodi'r pedwar Hyrwyddwr a nodwyd. Roeddent hefyd yn cefnogi'r farn y dylai'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ystyried yn fanwl a fyddai'n briodol penodi Hyrwyddwyr ar gyfer buddiannau eraill. Roedd yr Uwch Dîm Arwain wedi mynegi pryder ynghylch posibilrwydd dryswch a dyblygu rhwng rolau'r Hyrwyddwyr a'r Aelodau Lleol lle'r oedd y mater i'w hyrwyddo'n perthyn i gylch gwaith Aelod Lleol unigol.

Roedd CVs yr Aelodau etholedig canlynol a ddymunai gael eu hystyried i'w penodi wedi'u cylchredeg i'r Aelodau:-

Y Cynghorydd R.L. Feeley – Hyrwyddwr Pobl Hŷn.
Y Cynghorydd J.R. Bartley – Hyrwyddwr Anableddau Dysgu.
Y Cynghorydd J.A. Davies – Hyrwyddwr Gofalwyr.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratig, am nad oedd enwebiad wedi'i gael am Hyrwyddwr Digartrefedd, y gellid cynnwys y penodiad hwn yn yr adroddiad am Ddyfodol Hyrwyddwyr a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i'w ystyried.

Ar ôl ystyried y CVs priodol:-

***PENDERFYNWYD –*** *bod y Cyngor yn cytuno i'r penodiadau canlynol:-*

*(a) Penodi'r Cynghorydd R.L. Feeley yn Hyrwyddwr Pobl Hŷn.*
*(b) Penodi'r Cynghorydd J.A. Davies yn Hyrwyddwr Gofalwyr.*
*(c) Penodi'r Cynghorydd J.R. Bartley yn Hyrwyddwr Anableddau Dysgu, a*
*(d)* cynnwys penodiad Hyrwyddwr Digartrefedd yn yr adroddiad i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am Ddyfodol Hyrwyddwyr.

**9 BLAEN RAGLEN WAITH Y CYNGOR SIR**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratig flaen raglen Waith y Cyngor, a gylchredwyd yn flaenorol, a chytunodd yr Aelodau i gynnwys yr eitemau newydd canlynol yn y blaen raglen Waith:-

Cyfeiriodd y Cynghorydd T.R. Hughes at broblemau a gafwyd mewn perthynas â chyflwyno fesul dipyn gynllun biniau olwyn x2 yn Ne'r Sir, ac awgrymodd gynnwys eitem mewn perthynas â'r mater hwn yn y blaen raglen waith i'w hystyried yn y Cyngor Sir. Cefnogodd y Cynghorydd C.H. Williams y pryderon a fynegwyd a gofynnodd am ddarparu manylion costau sy'n ymwneud â chynllun x2.

Eglurodd y Cynghorydd C. Hughes fod y mater hwn wedi'i godi yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad, ar 29 Tachwedd 2012, ac y penderfynwyd cyflwyno'r mater hwn i Grŵp y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion i ystyried ei gynnwys ym Mlaen raglen Waith y Pwyllgor Craffu priodol. Roedd wedi trafod y mater ers hynny

gyda Chadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau a chytunwyd yn gyffredinol y dylid gohirio’r mater a’i gyfeirio at y Pwyllgor Craffu Cymunedau i’w ystyried.

Bu’r Prif Weithredwr yn sicrhau’r Aelodau ei fod yn ffyddiog fod y pennaeth gwasanaeth a’i dîm wrthi’n mynd i’r afael â’r problemau dan sylw. Cadarnhaodd y byddai ymchwiliad yn cael ei gynnal ac y byddai adroddiad, gan gynnwys manylion costau, yn cael ei ddarparu am y problemau a gafwyd. Byddai’r Pwyllgor Craffu’n cael y cyfle i archwilio’r mater yn llawn a gellid cyflwyno adroddiad pellach i’r Cyngor Sir ei ystyried, pe byddai’r Aelodau’n gofyn am hynny. Pwysleisiodd y Prif Weithredwr mai’r flaenoriaeth fyddai mynd i’r afael â’r problemau a gafwyd i sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn bodloni anghenion a disgwyliadau’r preswylwyr.

Amlygodd y Cynghorwyr H.H. Evans a H. Hilditch-Roberts fod angen cylchredeg manylion y trefniadau casglu sbwriel ar gyfer pob ardal yn y dyfodol agos.
Dywedodd y Cynghorydd D. Smith wrth yr Aelodau y byddai’n cyfarfod â’r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid a Phennaeth yr Amgylchedd ar 5 Rhagfyr 2012, i drafod dechrau’r ymchwiliadau, ac i archwilio’r broses i’w mabwysiadu i fynd i’r afael â’r problemau a gafwyd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd D.I. Smith at Sesiwn Wybodaeth y Cyngor ar 21 Ionawr 2013 ac amlygodd bwysigrwydd Sesiwn Wybodaeth y Cynghorwyr ar y Broses Cynllunio at Argyfwng, yng ngoleuni’r digwyddiadau diweddar.

***PENDERFYNWYD*** *- yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo a nodi blaen raglen waith y Cyngor.*

Daeth y cyfarfod i ben am 14.40 p.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **8 Ionawr 2013** |
| **Aelod Arwain / Swyddog:** | **Hugh Irving / Paul McGrady** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Ken A Jones** |
| **Teitl:** | **Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mabwysiadu Cynllun Cymru Gyfan ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Roedd Deddf Diwygio Lles 2012 yn cynnwys darpariaethau i ddileu budd-dal y dreth gyngor yn ei ffurf gyfredol ledled y DU. O 31 Mawrth 2013, bydd budd-dal y dreth gyngor yn dod i ben a throsglwyddwyd i Lywodraeth Cymru'r cyfrifoldeb am roi cymorth ar gyfer y dreth gyngor a'r cyllid sy'n gysylltiedig ag ef. Mae Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol yng Nghymru, wedi datblygu cynllun newydd i ddarparu cymorth treth gyngor y mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ei fabwysiadu erbyn 31 Ionawr 2013. Yn y cynllun, mae elfennau disgresiwn lleol y mae gofyn eu penderfynu hefyd gan gyngor llawn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr aelodau'n mabwysiadu Cynllun Cymru Gyfan ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a'u bod yn ystyried y 4 elfen ddewisol o'r cynllun fel y'u dangosir yn adran 4.1 ac yn eu cymeradwyo'n briodol.

(Sylwer: Oherwydd yr oedi cyn i Lywodraeth Cymru roi canllawiau i Gynghorau, ni allai'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb na'r ymgynghoriad ffurfiol ddechrau tan ddiwedd mis Rhagfyr. Ni fydd y rhain yn cael eu cwblhau cyn dosbarthu'r adroddiad hwn ac felly byddant naill ai'n dilyn fel papurau hwyr neu'n cael eu cyflwyno mewn cyfarfod. Gellir ystyried y rhain wedyn ar y diwrnod a gallent effeithio ar y penderfyniad a wneir.)

## 4. Manylion yr adroddiad

**Y Cynllun Arfaethedig**
Dengys y dadansoddiad cyfredol o Fudd-dal y Dreth Gyngor (Atodiad A) y bu cynnydd blynyddol yn Sir Ddinbych yn nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau. Mae cyfrifon archwiliedig 2011/12 yn cadarnhau 10,820 o hawlwyr am gost o £9.04 miliwn. Roedd y setliad terfynol yn cynnwys swm o £8.34m tuag at gost darparu'r Cynllun Cymorth Treth Gyngor newydd yn 2013/14.

Wrth ystyried datblygu cynllun newydd, cytunodd Llywodraeth Cymru y dylai'r cynllun newydd barchu'r paramedrau canlynol:

- Bod yn gynllun sengl a ddiffinnir yn genedlaethol i ddarparu lefel gyson o gymorth i hawlwyr ledled Cymru, a osodwyd ar 90% gan y Cynulliad ar 20 December. (Golyga hyn na ellir codi mwy na 10% o gyfanswm y Dreth Gyngor sy'n ddyledus ar unrhyw un nad oedd yn talu unrhyw Dreth Gyngor o'r blaen).
- Darparu nifer bach o elfennau dewisol, yn debyg i'r rheini sydd ar gael dan gynllun cyfredol Budd-dal y Dreth Gyngor, er mwyn i awdurdodau lleol ymateb i'w gwahanol amgylchiadau lleol (ar yr amod bod costau unrhyw amrywiad lleol yn cael eu hariannu'n lleol);
- Bod yn seiliedig ar ddiwygiad o system gyfredol Budd-dal y Dreth Gyngor, o leiaf yn y flwyddyn gyntaf i sicrhau bod y risgiau gweithredol yn cael eu rheoli a bod modd parhau i roi cymorth ar ôl mis Ebrill 2013 o ystyried yr amserlenni heriol iawn; a
- Lle bo'n bosibl, symleiddio'r trefniadau cymhleth presennol.

Mae'r cynllun arfaethedig yn dyblygu cynllun cyfredol Budd-dal y Dreth Gyngor, a dyma'r prif eithriadau:

- Bydd ad-daliad yr 2il oedolyn yn cael ei ddileu (Ar hyn o bryd, os ydych yn gallu fforddio talu'ch Treth Gyngor ond yn byw gyda rhywun ar incwm isel, mae'n bosibl y gallech gael help gyda'ch Treth Gyngor).
- Mân newidiadau i lefelau diystyru enillion a chyfalaf
- Ni fydd taliadau cynhaliaeth yn cael eu diystyru rhagor
- Bydd 10% o ostyngiad yn y cymorth Treth Gyngor sy'n daladwy yn cael ei gymhwyso er mwyn cyflawni'r arbedion gofynnol yn y gyllideb.

**4.1 Elfennau Dewisol i'r Cyngor eu penderfynu**

a) Y gallu i gynyddu'r cyfnod talu estynedig safonol o 4 wythnos a roir i bobl ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gwaith, pan fuont yn cael budd-dal cymwys perthnasol am 26 wythnos o leiaf

b) Dewis i ddiystyru rhan neu'r cyfanswm o bensiynau Anabledd Rhyfel a phensiynau Gweddwon Rhyfel wrth gyfrifo incwm

c) Dewis i ddarparu mwy na'r wybodaeth leiaf a ragnodir yn rhan o'r gweithdrefnau rhoi gwybod am benderfyniadau.

d) Y gallu i ôl-ddyddio cymhwysiad dyfarniadau Cymorth y Dreth Gyngor i gwsmeriaid oed gwaith yn fwy na'r cyfnod safonol o 3 mis cyn y cais.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid yw'n berthnasol.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'n amlwg bod incwm wedi'i golli drwy'r newidiadau yn system Budd-daliadau'r Dreth Gyngor. Talodd y Cyngor £9.04m allan yn 2011/12. O ystyried bod y baich achosion wedi dal i gynyddu, rhagwelir y bydd tua £9.6m yn cael ei wario yn 2013/14. Roedd y setliad terfynol yn cynnwys swm o £8.3m tuag at gost y cynllun newydd. Mae hyn yn rhoi diffyg o ryw £1.3m. Ni all y Cyngor ond codi ar breswylwyr yr hyn sy'n gywerth â thua £1m oherwydd y mwyafswm 10% sydd wedi'i gynnwys yn y ddeddfwriaeth. Bydd y Cyngor felly'n colli tua £300k mewn incwm, i bob pwrpas.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i wneud ymdrechion rhesymol i gasglu'r dreth gan unrhyw un yr ystyrir ei fod yn gymwys i dalu, a bydd yn gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'n debygol na fydd modd casglu rhywfaint o'r £1m hwn a bydd felly'n achosi rhagor o bwysau ar ddarpariaeth ddrwg ddyledion y Cyngor.

Bydd cynnydd mewn gweithgarwch adennill, a fydd yn mynnu adolygiad o adnodd staff Refeniwiau cyfredol, a bydd gofyn hefyd adolygu adnoddau staff yr adran Budd-daliadau. Rhaid uwchraddio system TGCh gyfredol y Dreth Gyngor ac mae hyn wedi costio £59k.

Rydym hefyd yn debygol o weld mwy o bwysau ar ymholiadau i'r Adran Budd-daliadau, a'r canolfannau rheoli dyled / ariannol a chyngor lles. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Grŵp Diwygio Lles i gydlynu gweithgareddau a sicrhau bod preswylwyr yn gallu cael y cymorth perthnasol. Yn ogystal â holl adrannau perthnasol y Cyngor, cynrychiolir Cyngor ar Bopeth a'r Siop Cyngor Budd-daliadau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau £4.6m yn genedlaethol i helpu gyda chostau pontio ond ni ryddhawyd unrhyw fanylion eto ynghylch cael at y cyllid hwn. Cafwyd cyllid ychwanegol hefyd gan Adran Hawliau Lles y Cyngor i ddarparu cymorth ychwanegol.

Mae Strategaeth Adennill Dyled gorfforaethol yn cael ei datblygu gyda'r bobl hynny a allai fod â dyledion lluosog gyda'r Cyngor fel ôl-ddyledion rhent, ôl-ddyledion treth gyngor, gordaliadau budd-dal etc.

Ynglŷn â'r elfennau dewisol

a) Y gallu i gynyddu'r cyfnod talu estynedig safonol o 4 wythnos a roir i bobl ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gwaith, pan fuont yn cael budd-dal cymhwyso perthnasol am 26 wythnos o leiaf

   Y swm a dalwyd mewn perthynas â thaliadau estynedig o 4 wythnos mewn achosion cymwys ar gyfer 2011/12 o ran Budd-dal y Dreth Gyngor oedd £22,000; byddai cynyddu'r amser yn gymesur, felly pe byddai'n cael ei estyn i 6 wythnos, y gost fyddai £33,000

b) Dewis i ddiystyru rhan neu'r cyfanswm o bensiynau Anabledd Rhyfel a phensiynau Gweddwon Rhyfel wrth gyfrifo incwm

   Cost diystyru Pensiynau Anabledd Rhyfel a Gweddwon Rhyfel ar gyfer 2011/12 o ran Budd-dal y Dreth Gyngor oedd £17,000.

c) Dewis i ddarparu mwy na'r wybodaeth leiaf a ragnodir yn rhan o'r gweithdrefnau rhoi gwybod am benderfyniadau.

Mae'r cynllun arfaethedig yn cefnogi'r holl wybodaeth ofynnol.

d) Y gallu i ôl-ddyddio cymhwysiad dyfarniadau Cymorth y Dreth Gyngor i gwsmeriaid oed gwaith yn fwy na'r cyfnod safonol o 3 mis cyn y cais.

Mae rheoliadau presennol Budd-dal y Dreth Gyngor yn caniatáu ôl-ddyddio 6 mis o leiaf i gwsmer oed gwaith, ac yn 2011/12 y swm a dalwyd o ran ceisiadau wedi'u hôl-ddyddio i gwsmeriaid oed gwaith oedd £20,000; nid yw'n bosibl cyfrifo'r gostyngiad os cyfyngir ar hwn i 3 mis.

**7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd ac a oes Sgriniad Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gynnal?**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar lefel genedlaethol ar ei newidiadau arfaethedig yn system Budd-dal y Dreth Gyngor.

Rhaid cydnabod mai cynllun rhagnodedig yw hwn gyda'r baich yn cael ei ysgwyddo gan bob grŵp, ac aseswyd ei effaith ar lefel genedlaethol felly nid oes unrhyw ddisgresiwn i warchod grwpiau a nodwyd yn Sir Ddinbych. Cynhaliwyd asesiad pellach o'r cynllun lleol a bydd ar gael cyn i'r aelodau wneud penderfyniad.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Phwyllgorau Craffu ac eraill?**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar y prif gynllun a chyhoeddi dogfen ymgynghori, *Darp*aru *Cymorth ar gyfer y Dreth Gyngor yng Nghymru,* ar 6 Chwefror 2012.

Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori dechnegol bellach ar 21 Medi 2012, ar Reoliadau drafft Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn). Daeth y cyfnod ymgynghori ar gyfer hwn i ben ar 17 Hydref 2012.

Daeth ymgynghoriad Cyngor Sir Ddinbych ar y pwerau dewisol i ben ar 4 Ionawr 2013, gan roi gwybod am yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyn i'r aelodau wneud penderfyniad.

Cafwyd nifer o weithdai aelod ar y mater.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Hwn yw'r newid mwyaf yn system y Dreth Gyngor ers ei sefydlu. Mae'r materion yn ei gylch wedi'u hymarfer yn dda a bydd yn rhoi pwysau ariannol pellach ar y Cyngor. Ni fydd graddau llawn y risgiau ariannol yn glir nes ymhell i'r flwyddyn ariannol nesaf.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae risgiau sylweddol i'r Cyngor wrth weithredu'r cynllun. Amlygwyd y rhain i aelodau mewn gweithdai amrywiol. Cedwir cofrestr risg gan y Pennaeth Refeniwiau a Budd-daliadau.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012.

Rheoliadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012

**Atodiad A**


Baich achosion 11/12

| **Math o fudd-dal** | **Sector** | **Cwsmeriaid** | **Gwerth** |
|---|---|---|---|
| Budd-dal y Dreth Gyngor | Budd-dal y Dreth Gyngor | 10,820 | £9.04 Miliwn |

Dadansoddiad o'r Rhai sy'n Hawlio

| Math o hawlydd | **%** |
|---|---|
| Pensiynwyr | 48% |
| Oed Gwaith a Di-waith | 35% |
| Oed Gwaith ac mewn Cyflogaeth | 17% |

**Ceisiadau Budd-dal y Dreth Gyngor**



Eitem Agenda 7



| Cyfarfod | Eitem (disgrifiad / teitl) | | Pwrpas yr adroddiad | Angen penderfyniad y Cyngor (oes/nag oes)? | Awdur – Aelod arweiniol a swyddog cyswllt |
|---|---|---|---|---|---|
| **8 Ionawr** | 1 | Cynllun Cefnogaeth Treth y Cyngor | Mabwysiadu cynllun newydd yn dilyn rheoliadau statudol | Oes | Ken Jones / Paul McGrady |
| | | | | | |
| **Sesiwn Friffio'r Cyngor** 21 Ionawr | 1 | Cyflwyniad Taith | Cyflwyniad cyffredinol ar waith Taith | Ddim yn berthnasol | Cynghorydd David Smith / Stuart Davies / Iwan Prys-Jones (Taith) |
| | 2 | Sesiwn Friffio i Gynghorwyr ar Gynllunio Brys | Ar gais y Cynghorydd David Smith | Ddim yn berthnasol | Cynghorydd David Smith / Rebecca Maxwell / Don Norris |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **5 Chwefror** | 1 | Polisïau a Gweithdrefnau Adnoddau Dynol | | | Linda Atkin |
| | 2 | Canllaw Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl (SPG) | | | Angela Loftus |
| | 3 | Cytundeb Cyllideb Refeniw | | | Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Paul McGrady |

| Cyfarfod | Eitem (disgrifiad / teitl) | | Pwrpas yr adroddiad | Angen penderfyniad y Cyngor (oes/nag oes)? | Awdur – Aelod arweiniol a swyddog cyswllt |
|---|---|---|---|---|---|
| | 4 | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru – Cyflwyniad o Raglen Waith | | | Cynghorydd Bobby Feeley / Sally Ellis |
| **NODER: 'HYFFORDDIANT AR WASANAETHAU CWSMERIAID' I FOD YN SESIWN AWR I AELODAU CYN CYFARFOD Y CYNGOR AR 5 CHWEFROR** | | | | | |
| | | | | | |
| **26 Chwefror** | 1 | Polisïau a Gweithdrefnau Adnoddau Dynol | | | Linda Atkin |
| | 2 | Canllawiau Cynllunio Interim Ffermydd Gwynt | | | Graham Boase |
| | 3 | Gosod Treth y Cyngor a Materion Cysylltiol | | Oes | Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Paul McGrady |
| | | | | | |
| **Sesiwn Friffio'r Cyngor** 11 Mawrth | | | | | |
| | | | | | |
| **9 Ebrill** | 1 | Polisïau a Gweithdrefnau Adnoddau Dynol | | | Linda Atkin |
| | 2 | Cynllun Corfforaethol – Dogfen | | | Alan Smith |

| Cyfarfod | Eitem (disgrifiad / teitl) | | Pwrpas yr adroddiad | Angen penderfyniad y Cyngor (oes/nag oes)? | Awdur – Aelod arweiniol a swyddog cyswllt |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Gyflenwi Flynyddol | | | |
| | | | | | |
| **Sesiwn Friffio'r Cyngor** 22 Ebrill | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **7 Mai** | 1 | Polisïau a Gweithdrefnau Adnoddau Dynol | | | Linda Atkin |
| | | | | | |
| | | | | | |

**Cyfarfod i'r Dyfodol**

| Dyddiad | Eitem (disgrifiad / teitl) | Pwrpas yr adroddiad | Angen penderfyniad y Cyngor (oes/nag oes)? | Awdur – Aelod arweiniol a swyddog cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| Sesiwn Friffio'r Cyngor – Dyddiad i'w gadarnhau | Cyflwyniad gan y Swyddog Cartrefi Gwag | Cynigiwyd gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 1 Rhagfyr 2011 i roi gwybodaeth ar rolau ac amcanion y swydd | Nag oes | I'w gadarnhau |

*<u>Nodyn i Swyddogion – Dyddiadau Cau ar gyfer Adroddiadau i'r Cyngor Llawn</u>*

| *Cyfarfod* | ***Dyddiad Cau*** | *Cyfarfod* | ***Dyddiad Cau*** | *Cyfarfod* | ***Dyddiad Cau*** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| *Ionawr* | ***18 Rhagfyr*** | *Chwefror (5)* | ***22 Ionawr*** | *Chwefror (26)* | ***12 Chwefror*** |

<u>Diweddarwyd 17/12/2012 - SP</u>

Council Work Programme.doc